# Awdurdod Heddlu De Cymru

## Trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

### Ynglŷn â'r arolwg hwn

Ar y 15 Tachwedd 2012 cynhelir yr etholiadau cyntaf y tu allan i Lundain ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs) ledled Cymru a Lloegr. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn dal prif gwnstabliaid i gyfrif am blismona yn eu hardal heddlu eu hunain ar ran y cyhoedd. Bydd panelau heddlu a throsedd newydd yn archwilio gweithredoedd a phenderfyniadau pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar gyfer y cyhoedd, gan eu galluogi i ddal Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gyfrif. Bydd awdurdodau'r heddlu yn peidio â bod.

Ar dechrau haf 2012[1], asesodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi (HMIC) sut y mae awdurdodau'r heddlu yn paratoi ar gyfer y newid hwn. Fe archwilion ni eu cynlluniau trawsnewid ac ymweld â phob awdurdod i ofyn:

- A yw awdurdod yr heddlu yn sicrhau busnes fel arfer hyd Tachwedd 2012?
- A oes gan awdurdod yr heddlu gynllun i reoli'r trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu?
- A oes trefniadau wedi eu darparu i ymorol am drosglwyddiad diasiad i Gomisiynwr yr Heddlu a Throseddu?
- A yw rhanddeiliaid eraill yn ymwneud yn llwyr â'r broses trawsnewid?

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi yr hyn a ddarganfuom yn Ne Cymru. Mae adroddiad thematig, *Preparing for Police and Crime Commissioners,* ar gael o [www.hmic.gov.uk](http://www.hmic.gov.uk)

### Darganfyddiadau

#### ***Crynodeb***

Mae Awdurdod Heddlu De Cymru yn barod wedi darparu cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer rheoli'r trosglwyddiad i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith sylweddol a chyfathrebu â'r cyhoedd, y partneriaid a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod materion plismona sy'n effeithio ar Gymru yn cael eu hystyried.

Mae awdurdod yr heddlu yn parhau i fod yn llwyr ymroddedig i sicrhau eu bod ymgymryd â dull gweithredu busnes fel arfer. Mae aelodau awdurdod yr heddlu i'w

[1] Digwyddodd cyfarfodydd gydag awdurodau'r heddlu rhwng Ebrill a Mehefin.

canmol am eu hymrwymiad parhaus a’u proffesiynoldeb. Fe’i cefnogir gan staff awdurdod yr heddlu ac uwch-swyddogion o’r heddlu, sy’n arwain ar brosiectau penodol i sicrhau bod cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu yn digwydd yn rhwydd. Mae awdurdod yr heddlu yn barod wedi dechrau datblygu rhai dewisiadau ar gyfer y modd y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a phanel yr heddlu a throsedd yn dewis gweithredu o’r dydd cyntaf, er nad yw’r rhain wedi eu datblygu’n llawn eto.

### *Sicrhau busnes fel arfer hyd Tachwedd 2012*

Mae aelodau awdurdod yr heddlu yn llwyr ymroddedig i ddarparu arweiniad a rheolaeth gadarn hyd Tachwedd. Ni chafodd oddeutu hanner aelodau awdurdod yr heddlu eu dychwelyd yn yr etholiadau lleol diweddar. Fodd bynnag, mae’r awdurdod yn parhau yn ymroddedig i ddarparu arweiniad a rheolaeth gadarn. Gwnaed ymdrechion i sicrhau bod aelodau newydd yn cael cyfarwyddyd ar flaenoriaethau presennol a chynlluniau’r trawsnewid. Mae penderfyniadau pwysig ynghylch cydweithredu a gostyngiadau mewn cyllideb yn dal i gael eu gwneud. Darganfu Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi bethau newydd hefyd, er enghraifft, yn y penderfyniadau i rannu uwch-swyddogion yr heddlu a staff, a thimau drylliau, masnach a throseddau difrifol a throseddau wedi’u trefnu ar y cyd â heddlu Gwent a heddlu Dyfed-Powys.

### *Cynlluniau i reoli’r trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu*

Mae gan Heddlu ac Awdurdod De Cymru fwrdd trawsnewid sefydledig, sydd â chynlluniau clir ar gyfer sicrhau bod y newid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn rhwydd. Cefnogir hyn gan gyfarfod tîm wythnosol, gydag uwch-swyddogion yr heddlu a staff yn cael eu dal yn gyfrifol am arwain gwahanol agweddau o newid. Er nad yw mudiadau partneriaid yn eistedd ar y bwrdd hwn, mae gwaith helaeth wedi ei wneud i sicrhau bod y byrddau yn gofyn eu barn a’u bod yn cael gwybod sut mae pethau’n datblygu.

Mae’r prif beryglon wedi eu henwi a’u graddio o ran pwysigrwydd, gyda thystiolaeth glir o weithredu a wnaed i liniaru’r rhain. Amlygir unrhyw beryglon dirfawr yn y datganiad o’r gorffennol (adroddiad trosglwyddo) sy’n cael ei lunio ar hyn o bryd. Er bod ymadawiad diweddar hanner aelodau’r awdurdod (gan gynnwys y cadeirydd) wedi bod yn heriol, mae’r awdurdod wedi ymateb trwy gysegru aelod o’r staff i reoli rhaglen y newid.

### *Trefniadau i ymorol am drosglwyddiad diasiad i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu*

Mae’n bwysig bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sy’n dod i mewn yn gweithio’n effeithiol o’r diwrnod cyntaf. Hwy fydd yn penderfynu pa fodd y dymunant redeg eu swyddfa, dal yr heddlu i gyfrif a chysylltu a’r cyhoedd er mwyn enwi’r blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, bydd nifer o ddewisiadau yn cael eu cynnwys o fewn y datganiad o’r gorffennol a’r cynllun drafft heddlu a throsedd ac fe all y bydd

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu am eu defnyddio i gynllunio gweithgaredd yn yr ychydig fisoedd cyntaf.

Mae Heddlu ac Awdurdod De Cymru yn rhannu gwybodaeth a medrusrwydd gyda'r heddluoedd Cymreig i gyd ac wedi cymryd rhan ar lefel genedlaethol i sicrhau, er enghraifft, bod cynlluniau cyllidol ac adroddiadau yn fanwl ac yn cyd-fynd â gofynion cyfreithiol. Mae trefniadau ar gyfer swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (gan gynnwys digomisiynu'r awdurdod a'i gofnodion a'i adnoddau) yn cael eu hamlinellu mewn datganiad manwl o'r gorffennol fydd yn cyfrannu tuag at drawsnewid rhwydd. Bydd Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi yn dilyn rhediad y gwaith hwn drwy'r haf.

***Sut y mae rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y broses trawsnewid***

Mae Awdurdod Heddlu De Cymru yn rhoi pwyslais mawr ar gysylltu â phartneriaid eraill. Mae hyn yn cynnwys cydnabod y rhai a effeithir gan ostyngiadau yng nghyllid yr heddlu (fel awdurdodau lleol, swyddfeydd cyfiawnder troseddol a'r sector wirfoddol). Mae cynlluniau ar gyfer cyfarwyddo ymgeiswyr Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu arfaethedig yn eglur ac fe'i rhennir â staff i sicrhau dull gweithredu cyson.

**Camau nesaf**

Bydd Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi yn parhau i fonitro'r trawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gan ganolbwyntio ar drefniadau fydd yn galluogi Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i weithio'n effeithiol o'r diwrnod cyntaf.